# Nodyn cyfarwyddyd rheoleiddio 5: cymhwysedd gweithredwr

## Cyflwyniad

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sydd â thrwyddedau amgylcheddol fod yn gymwys i ymdrin â'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau.

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut rydym yn asesu cymhwysedd deiliaid trwydded.

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac Adran 9 o'r Canllawiau Craidd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn nodi'r gofynion ar gyfer cymhwysedd gweithredwyr sy'n dal trwyddedau amgylcheddol.

Gallwn ystyried cymhwysedd gweithredwr ar unrhyw adeg, boed fel rhan o benderfynu ar gais am drwydded newydd, trosglwyddiad neu amrywiad. Yr eithriad yw pan fydd gweithredwr yn ein hysbysu am drosglwyddo gollyngiadau dŵr annibynnol, dŵr daear, neu weithgaredd perygl llifogydd, a wneir trwy hysbysiad. Byddwn yn asesu p'un a yw'r gweithredwr yn ddigon cymwys i gydymffurfio â'r amodau sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y drwydded.

Dyma'r ffactorau a all awgrymu bod y gweithredwr yn annhebygol o gydymffurfio ag amodau'r drwydded:

- system reoli annigonol
- cymhwysedd technegol annigonol
- cofnod o ymddygiad gwael neu ddiffyg cydymffurfio â gofynion rheoliadol blaenorol
- cymhwysedd ariannol annigonol.

Ni fydd yr holl ffactorau hyn yn cael eu hasesu ar gyfer pob cyfundrefn o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac eglurir hyn ymhellach isod.

Os byddwn yn ystyried nad yw'r gweithredwr yn gymwys neu'n anfodlon cydymffurfio â'r amodau, gallwn wrthod cais neu ddirymu trwydded (neu ei dirymu'n rhannol).

Gellir hefyd ystyried cymhwysedd gweithredwr ar unrhyw adeg yn ystod oes y drwydded. Unwaith y bydd trwydded wedi'i rhoi, rhaid i weithredwr ddilyn yr holl amodau sydd ynddi. Byddwn yn gwirio cydymffurfedd â'r amodau hyn yn ogystal â chymhwysedd. Gallwn gymryd camau gorfodi neu ddirymu'r drwydded os credwn nad yw'r gweithredwr bellach yn gymwys.

Rydym yn asesu gofynion yn y meysydd canlynol, fel y bo'n briodol, yn ôl y dosbarth o gyfleuster rheoleiddiedig y mae'r gweithgaredd yn perthyn iddo:

- Systemau Rheoli'r Amgylchedd

- Cymhwysedd technegol
- Cofnod o gydymffurfio (gan gynnwys euogfarnau perthnasol)
- Cymhwysedd ariannol (gan gynnwys darpariaeth ariannol ar gyfer rhai mathau o gyfleusterau rheoleiddiedig).

Nid yw'r Nodyn Cyfarwyddyd Rheoleiddio hwn yn berthnasol i Drwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd. Ar gyfer y trwyddedau hyn, cynnwys y cais am drwydded a'r dull gweithio arfaethedig sy'n dangos cymhwysedd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau perygl llifogydd

Rydym yn cymhwyso'r gofynion hyn yn gymesur â chymhlethdod y cyfleuster a reoleiddir a'i risgiau amgylcheddol. Er enghraifft, rhaid i'r system rheoli amgylcheddol ar gyfer proses gemegol fod yn eithaf manwl i gwmpasu'r ystod o bosibiliadau ond dim ond cyfarwyddiadau ysgrifenedig syml a hyfforddiant / goruchwyliaeth ddigonol sydd eu hangen arnom ar gyfer taenu dip defaid defnyddiedig ar dir neu ar gyfer gollyngiad carthion bach i ddŵr wyneb.

Mae canllawiau ar gael i helpu gweithredwyr i gydymffurfio â'u trwydded. Ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau, mae hyn wedi'i gynnwys yn ein canllawiau Sut i Gydymffurfio â'ch Trwydded Amgylcheddol (PDF), sy'n esbonio beth mae amodau a rheolau trwydded yn ei olygu a beth sydd angen i weithredwr ei wneud i gydymffurfio â'i drwydded. Mae hyn yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i fodloni'r pedwar maes cymhwysedd a grybwyllwyd uchod.

# Gofynion ar gyfer deiliaid ac ymgeiswyr trwyddedau

Mae'r gofynion ar gyfer pob trwydded yn dibynnu ar ddosbarth y cyfleuster.

## Gweithrediadau gwastraff ac offer symudol gwastraff

- System reoli ysgrifenedig sy'n gymesur â chymhlethdod y gweithgareddau a reoleiddir (anogir system ffurfiol a ardystiwyd yn allanol gan gorff achrededig Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) ar gyfer safleoedd cymhleth neu risg uwch).
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli a chydymffurfio â chynllun cymhwysedd technegol cymeradwy.
- Hanes cydymffurfio da, gan gynnwys ystyried euogfarnau perthnasol.
- Asesir cymhwysedd ariannol ym mhob achos, ond dim ond ar gyfer safleoedd tirlenwi anadweithiol y mae angen darpariaeth ariannol.

## Gosodiadau

- System reoli ysgrifenedig sy'n gymesur â chymhlethdod y gweithgareddau a reoleiddir (anogir system ffurfiol a ardystiwyd yn allanol gan gorff achrededig Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) ar gyfer safleoedd cymhleth neu risg uwch).
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli.

- Mae gosodiadau sydd hefyd yn weithrediadau gwastraff perthnasol (gweler 3.5 isod) hefyd angen cydymffurfio â chynllun cymhwysedd technegol cymeradwy.
- Hanes cydymffurfio da, gan gynnwys ystyried euogfarnau perthnasol.
- Asesir cymhwysedd ariannol, ond dim ond ar gyfer safleoedd tirlenwi y mae angen darpariaeth ariannol.

## Cyfleusterau gwastraff mwyngloddio

- System reoli ysgrifenedig.
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli.
- Hanes cydymffurfio da, gan gynnwys ystyried euogfarnau perthnasol.
- Asesir cymhwysedd ariannol, ond dim ond ar gyfer cyfleusterau gwastraff mwyngloddio Categori A a chyfleusterau gwastraff mwyngloddio peryglus y mae angen darpariaeth ariannol.

## Gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear

- System reoli ysgrifenedig.
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli.
- Gellir ystyried euogfarnau perthnasol a chymhwysedd ariannol fel rhan o asesiad cydymffurfio.

## Sylweddau ymbelydrol

- System reoli ysgrifenedig.
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli.
- Bydd euogfarnau perthnasol, cofnod cydymffurfio a chymhwysedd ariannol yn cael eu hasesu fel y bo'n briodol.
- Fel arfer dim ond ar gyfer Ffynonellau Seliedig Uchel eu Hactifedd (HASS) y mae angen darpariaeth ariannol.
- Rhaid i'r rhai sydd wedi'u hawdurdodi i gronni neu waredu gwastraff ymbelydrol ofyn am gyngor gan Gynghorydd Gwastraff Ymbelydrol.
- Dylai deiliaid ffynonellau seliedig hefyd geisio cyngor gan arbenigwr amddiffyn rhag ymbelydredd addas.

## Gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol

- System reoli ysgrifenedig.
- Hyfforddiant fel rhan o systemau rheoli.
- Gellir ystyried euogfarnau perthnasol a chymhwysedd ariannol fel rhan o asesiad cydymffurfio.

## Gweithgareddau perygl llifogydd

**Nid** yw'r Nodyn Cyfarwyddyd Rheoleiddio hwn yn berthnasol i drwyddedau gweithgaredd perygl llifogydd.

# Yr hyn y gallwn ei asesu fel rhan o wiriad o gymhwysedd gweithredwr

## Systemau rheoli

Disgwyliwn i System Reoli Amgylcheddol ('system reoli') ysgrifenedig effeithiol fod ar waith, yn briodol i gymhlethdod a natur y gweithrediad ac yn gymesur â'r risg amgylcheddol. Mae hon yn gyfres o weithdrefnau sy'n disgrifio'r risgiau a achosir gan y gweithrediadau a'r hyn y mae'n rhaid i'r gweithredwr ei wneud i leihau'r risg o lygredd o'i weithgareddau.

Byddwn yn gwirio digonolrwydd a gweithrediad systemau rheoli yn ystod y cam gwneud cais a'r cam gweithredu, yn enwedig mewn gweithrediadau newydd a ganiateir.

Ceir canllawiau ar greu system reoli yn [Sut i Gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol (PDF).]

Nid yw rhai trwyddedau gwastraff a ddyroddwyd cyn 6 Ebrill 2008 yn cynnwys amod penodol sy'n gofyn am gynllun gwaith neu system reoli, fodd bynnag mae'r rheoliadau'n nodi y bydd angen i bob deiliad trwydded reoli a gweithredu ei weithgarwch gwastraff yn unol â system reoli ysgrifenedig.

Ar gyfer y gweithgareddau rheoledig mwyaf cymhleth, er enghraifft gosodiadau, a gweithrediadau gwastraff sy'n ymdrin â gwastraff peryglus neu ddyddodi gwastraff yn barhaol, rydym yn annog gweithredwyr i ddefnyddio system reoli sy'n seiliedig ar safon gydnabyddedig. Dylai'r system gynnwys mesurau diogelu ar gyfer cydymffurfio â'r gyfraith ac ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Yn ddelfrydol, dylai hyn hefyd gael ei ardystio gan gorff achredededig annibynnol Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig.

Ar gyfer gweithgareddau symlach, gall system reoli fod yn system fewnol fwy sylfaenol.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am drwyddedau safonol nodi'r math o system reoli y maent yn bwriadu ei mabwysiadu ar y ffurflen gais. Nid oes angen i chi gyflwyno copi o'r system reoli i ni.

Rhaid i ymgeiswyr trwyddedau pwrpasol roi crynodeb amlinellol i ni (nid copi) o'u system reoli. Byddwn yn asesu ei sgôp i weld a yw'n ddigonol a byddwn yn gwrthod y cais os byddwn yn canfod diffyg difrifol.

Ar gyfer gweithredwyr gosodiadau a gweithrediadau gwastraff, efallai y bydd angen i system reoli gynnwys un neu fwy o'r cynlluniau rheoli canlynol (wedi'u hysgrifennu yn unol â'n canllawiau) lle maent yn berthnasol i'r gweithgareddau:

- cynllun rheoli arogl
- cynllun rheoli sŵn a dirgryniad
- cynllun rheoli plâu
- cynllun rheoli allyriadau ffo
- cynllun atal a lliniaru tân

- cynllun adfer gwastraff.

Os oes angen unrhyw un o'r cynlluniau rheoli a nodir uchod fel rhan o system reoli, bydd angen cyflwyno'r rhain i'w cymeradwyo fel rhan o'r cais.

Ar gyfer gweithredwyr gosodiadau, rhaid i'r system reoli hefyd fodloni gofynion y Technegau Gorau Sydd Ar Gael. Mae canllawiau ar agweddau rheoli Technegau Gorau sydd ar Gael wedi'u cynnwys yn rhan gyntaf dogfen gasgliadau Technegau Gorau sydd ar Gael a gyhoeddwyd ar gyfer pob sector lle mae casgliadau Technegau Gorau sydd ar Gael eisoes wedi'u cyhoeddi. Dogfennau Cyfeirio | Eippcb (europa.eu)

Os nad oes casgliadau Technegau Gorau sydd ar Gael sector-benodol ar gael, neu os nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto gan yr UE, yna gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am System Rheoli Amgylcheddol ar gyfer gosodiadau mewn canllawiau sector-benodol. Efallai y byddwch yn dod o hyd i hyn yn Canllawiau technegol ar gyfer sectorau diwydiant a reoleiddir: Trwyddedu Amgylcheddol – GOV.UK (www.gov.uk).

Wrth i'r DU symud allan o gyfnod pontio EUEXIT, bydd proses Technegau Gorau sydd ar Gael yr UE yn cael ei disodli gan ei dull gweithredu ei hun, gan gynnwys Technegau Gorau sydd ar Gael ar gyfer systemau rheoli. Ar hyn o bryd mae'r DU yn datblygu cynigion ar gyfer ei fersiwn ei hun o Dechnegau Gorau sydd ar Gael ar gyfer y DU.

# Cymhwysedd technegol

## Gofynion cyffredinol

Rhaid i bob gweithredwr fod yn dechnegol gymwys i weithredu ei gyfleuster a gallu dangos ei gymhwysedd yn barhaus. Rhaid i weithredwyr ddangos y canlynol:

- eu bod yn gwybod sut i weithredu'r offer
- eu bod yn gwybod sut i gydymffurfio â'r gyfraith a pholisïau'r llywodraeth
- eu bod yn gwybod sut i leihau risg a'r effaith ar bobl a'r amgylchedd
- bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gael, gan gynnwys ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw'r offer angenrheidiol
- eu bod yn cyflogi digon o staff i weithredu yn unol â'u trwydded, gan gynnwys sut y byddant yn cael eu hyfforddi'n briodol
- eu bod yn deall y drwydded a'u dyletswyddau fel gweithredwr.

Rhaid i system reoli'r gweithredwr gwmpasu hyfforddiant a datblygiad staff, a gwneud darpariaeth i ddiweddaru cymhwysedd staff yn unol â newid technegol a deddfwriaethol. Rydym yn ystyried hyn ar y cam ymgeisio a thrwy gydol oes trwydded.

## Gofynion ar gyfer gwahanol fathau o gyfleusterau

Mae mwy o ofynion ar gyfer rhai cyfleusterau oherwydd natur benodol y risgiau. Er enghraifft, mae angen hyfforddiant penodol ar reoli gwastraff ar staff mewn 'gweithrediadau gwastraff perthnasol' a threfnir hyn yn gyffredinol drwy gynlluniau hyfforddi penodol a ddatblygir gan y diwydiant.

Noder, ar gyfer rhai gweithgareddau, gallwn ddibynnu ar ofynion cymhwysedd a bennir gan ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn sy'n prynu dip defaid - a fydd yn cynnwys gollwng rheoledig i dir - gael Tystysgrif cymhwysedd mewn defnyddio dipiau defaid. Mae'r Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol yn ei gwneud yn ofynnol i dipio gael ei wneud gan/dan oruchwyliaeth unigolyn sy'n dal y dystysgrif hon.

## Gweithrediadau gwastraff perthnasol

Diffinnir gweithrediad gwastraff perthnasol fel:

- gweithrediad gwastraff nad yw'n cael ei gyflawni mewn gosodiad neu Offer Symudol Rhan B,
- 'gweithgaredd rheoli gwastraff penodedig' pan fo gweithgaredd rheoli gwastraff penodedig yn osodiad a restrir ym mhennod 5 o ran 2 o Atodlen 1 (Rheoli Gwastraff). Nid yw hwn yn cynnwys y gweithgareddau a restrir o dan 5.1 (Llosgi) a 5.7 (Trin Dŵr Gwastraff).

Rhaid i weithredwyr gweithrediadau gwastraff perthnasol esbonio yn eu system reoli sut y maent yn bwriadu dangos cymhwysedd technegol.

Gellir dangos hyn trwy fodloni un o'r canlynol. Byddwn yn ceisio nodi'r cynllun diwydiant mwyaf priodol os bydd ymgeisydd yn honni nad yw ei weithrediad gwastraff wedi'i gwmpasu gan unrhyw un ohonynt. Os nad yw hyn yn bosibl, yna mewn amgylchiadau eithriadol efallai y byddwn yn cynnal asesiad cymhwysedd sy'n benodol i'r gweithgaredd.

## Tystysgrifau Cymhwysedd Technegol

Bydd deiliaid presennol Tystysgrifau Cymhwysedd Technegol a gyhoeddwyd gan Fwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff yn parhau i gael eu cydnabod yn gymwys i reoli gweithrediadau y mae eu tystysgrif yn ddilys ar eu cyfer. Bydd Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff yn cynnal a chadw cronfa ddata o ddeiliaid y Tystysgrifau Cymhwysedd Technegol a hwn fydd y cofnod canolog diffiniol.

## Cymhwysedd tybiedig

Mae unigolion a oedd yn gweithredu o dan drwydded gwaredu gwastraff cyn mis Mai 1994 wedi cael eu hystyried yn dechnegol gymwys ar gyfer y gweithrediad hwnnw, ac ni fu'n ofynnol iddynt erioed ddangos eu cymhwysedd technegol. Mae'r unigolion hyn yn cadw statws cymwys tybiedig tan 1 Mawrth 2011 pan fydd disgwyl iddynt fod wedi llwyddo yn yr asesiad cymhwysedd parhaus.

Lle mae gweithredwr yn hawlio statws cymwys tybiedig, naill ai ar gais neu yn ystod asesiad cydymffurfio, dylid gwirio hyn yn erbyn cofnodion lleol.

## Asesiadau rheoleiddwyr

Bydd cynlluniau diwydiant yn cynnal asesiadau llawn ar draws y diwydiant gwastraff ac ni fyddwn yn darparu asesiadau ein hunain fel arfer.

## Cynlluniau diwydiant cymeradwy

Cydymffurfio â chynllun diwydiant cymeradwy. Bydd darparwyr cynlluniau yn cadw cronfeydd data o unigolion a/neu sefydliadau sy'n gymwys fel rhai technegol gymwys o dan eu cynllun, a byddwn hefyd yn eu defnyddio i gynnal gwiriadau asesu cydymffurfedd.

Er mwyn sefydlu p'un a oes gan ymgeisydd y lefel briodol o gymhwysedd technegol byddwn yn:

- gwirio bod yr unigolyn / sefydliad technegol cymwys yn ymddangos ar gronfa ddata'r cynllun a ddewiswyd
- gwirio bod math a lefel y cymhwysedd a enillwyd yn briodol i'r gweithrediadau a ganiateir.

Ar hyn o bryd mae dau gynllun cymeradwy:

- Cynllun y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff / Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff a Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff.
- Cynllun system rheoli cymhwysedd y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol / Sgiliau'r UE sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Cyngor Sgiliau Sector Ynni a Chyfleustodau (Sgiliau Sector yr UE).

Mae angen i'ch sefydliad feddu ar gymwysterau Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff / Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff neu system rheoli cymhwysedd ardystiedig y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol / Sgiliau'r EU ar waith cyn y gallwch wneud cais:

- i gael amrywio trwydded neu ei throsglwyddo i chi
- am drwydded newydd ar gyfer safle tirlenwi.

Wrth wneud cais am drwydded newydd ar gyfer safle gwastraff nad yw'n safle tirlenwi, mae gan weithredwyr hyd at 12 mis i roi'r pethau hyn yn eu lle, cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yn y naill gynllun neu'r llall.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi ar y ffurflen gais pa opsiwn y byddant yn dibynnu arno. Bydd system reoli'r gweithredwr yn cynnwys cyfeiriad at y cynllun perthnasol ynghyd â manylion unrhyw bersonau technegol gymwys. Rhaid i bob cais am drwydded neu drosglwyddo trwydded gynnwys tystiolaeth o gymhwysedd technegol, bydd hyn yn cael ei groeswirio yn erbyn y gronfa ddata berthnasol i wirio bod cymhwysedd technegol y gweithredwr yn ddilys.

## Cynllun y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff / Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff

Os bydd gweithredwr yn ymuno â chynllun y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff/ Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff, bydd angen i'w reolwyr weithio tuag at ennill cymwysterau'r cynllun (Tystysgrif Cymhwysedd Technegol).

Mae cynllun y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Gwastraff/ Bwrdd Hyfforddi ac Ymgynghorol y Diwydiant Rheoli Gwastraff yn caniatáu uchafswm o bedair wythnos i weithredwyr, o'r amser y mae gweithrediadau a ganiateir yn dechrau,  i gael Tystysgrif Gweithredwr Trwydded Amgylcheddol a ddyfarnwyd gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff neu i gyflawni pedair uned y 'FfCCh' perthnasol. Ar gyfer gweithrediadau risg isel mae hwn yn lefel ddigonol o gymhwysedd. Bydd hefyd yn ofynnol i weithredwyr gweithrediadau risg canolig neu uchel gyrraedd y lefel briodol o gymhwysedd o fewn 12 mis (neu yn achos trwydded peiriannau symudol, o fewn 12 mis i ddyddiad cychwyn y defnydd cyntaf).

Bydd gweithredwyr eisoes yn cael eu hystyried yn rhan o'r cynllun hwn os yw'r naill neu'r llall o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae ganddynt statws cymhwysedd cofrestredig a dilysedig tybiedig (gweler uchod).
- Maent wedi cwblhau asesiad CNC ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn berthnasol i'r Tystysgrifau Cymhwysedd Technegol cyn hyn. Bydd manylion yr holl bobl a'r safleoedd/gweithgareddau y cawsant eu hasesu ar eu cyfer yn cael eu rhestru ar gronfa ddata CNC. Nid oes unrhyw asesiadau newydd wedi'u cynnal ers cymeradwyo cynllun cyntaf y diwydiant ym mis Rhagfyr 2008 ond bydd asesiadau blaenorol yn parhau'n ddilys.

Mae angen i weithredwyr sy'n rhan o'r cynllun hwn basio asesiad Cymhwysedd Parhaus bob dwy flynedd.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ba mor aml y mae angen i'r staff ardystiedig hyn fod ar y safle yn y canllawiau ar ein gwefan: 'Sut i gydymffurfio ach trwydded amgylcheddol' (cyfoethnaturiol.cymru)

## Cynllun y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol / Sgiliau'r UE

Mae cynllun y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol / Sgiliau'r UE yn ystyried cymhwysedd y sefydliad cyfan. I ymuno â'r cynllun hwn mae angen i weithredwyr fod â system rheoli cymhwysedd ar waith a rhaid i hon gael ei hardystio gan un o gyrff cymeradwyo'r cynllun.

Ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio cynllun y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol /Cynllun Sgiliau'r UE fel y dull o ddangos cymhwysedd, rhaid cael ardystiad o fewn 12 mis a bodloni'r holl ofynion canlynol. Rhaid i'r gweithredwr gyflawni'r canlynol:

- nodi cynllun Sgiliau'r UE / y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol fel eu dewis o gynllun ar eu cais
- dewis a rhoi contract ar waith gyda Chorff Ardystio Achrededig, a darparu prawf o gofrestriad neu gontract yn y cam ymgeisio
- cytuno ar amserlen ar gyfer y broses archwilio ac ardystio o fewn pedair wythnos i gyhoeddi'r drwydded
- cael archwiliad Cam 1 wedi'i gwblhau gan y Corff Ardystio Achrededig o fewn chwe mis i gyhoeddi'r drwydded

- cyflawni ardystiad achrededig ffurfiol o'u System Rheoli Cymhwysedd o fewn 12 mis i gyhoeddi'r drwydded.

Rhaid i weithredwyr gweithrediadau gwastraff roi gwybodaeth i CNC sy’n dangos eu bod yn cydymffurfio’n barhaus â’r cynlluniau cymhwysedd technegol gan ddefnyddio’r datganiad gwastraff chwarterol neu flynyddol.

## Gwastraff ymbelydrol

Mae asiantaethau amgylcheddol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau sy'n awdurdodi casglu neu waredu gwastraff ymbelydrol i benodi Cynghorydd Gwastraff Ymbelydrol ardystiedig. Mae’r gofyniad wedi’i nodi’n ffurfiol yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 (Diwygio) (Rhif 2) 2018. Mae gennym gynllun DU gyfan ar gyfer cydnabod Cynghorwyr Gwastraff Ymbelydrol yn ffurfiol.

Diffinnir Cynghorwr Gwastraff Ymbelydrol fel unigolyn, neu grŵp o unigolion, sydd â’r wybodaeth, yr hyfforddiant a’r profiad sydd eu hangen i roi cyngor ar reoli gwastraff ymbelydrol a diogelu rhag ymbelydredd amgylcheddol mewn perthynas â gwastraff ymbelydrol er mwyn sicrhau bod aelodau’r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol, ac y mae eu cymhwysedd yn hynny o beth yn cael ei gydnabod gan y rheoleiddiwr. Gallant hefyd roi cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig ag asesiadau amgylcheddol ac effeithiau, archwilio a chydymffurfio â thrwyddedau.

Dylai deiliaid ffynonellau seliedig hefyd geisio cyngor gan arbenigwr amddiffyn rhag ymbelydredd addas. Efallai y rhoddir cyfrifoldeb technegol iddynt am dasgau amddiffyn rhag ymbelydredd i weithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol a gallant hefyd gynghori ar archwilio a chydymffurfio â thrwyddedau.

Diffiniwyd y term arbenigwr amddiffyn rhag ymbelydredd yn y Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol 2013/59/EURATOM a gall fod yn berthnasol i amrywiaeth o arbenigwyr cymwys a ddiffinnir yn dibynnu ar y rôl. Ar gyfer gwastraff ymbelydrol, dyma'r Cynghorydd Gwastraff Ymbelydrol, fodd bynnag, ar gyfer gweithgareddau eraill, gall cynghorwyr â chymwysterau/ardystiadau amgen hefyd gyflawni rôl arbenigwr amddiffyn rhag ymbelydredd.

"Mae "arbenigwr amddiffyn rhag ymbelydredd" yn golygu:

> unigolyn neu, os darperir ar ei gyfer yn y ddeddfwriaeth genedlaethol, grŵp o unigolion sydd â’r wybodaeth, yr hyfforddiant a’r profiad sydd eu hangen i roi cyngor ar amddiffyn rhag ymbelydredd er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol, ac y mae’r cymhwysedd o ran hyn yn cael ei gydnabod gan yr awdurdod cymwys.

## Cofnod o gydymffurfio

Wrth ystyried cais am drwydded, neu adolygu cymhwysedd deiliad trwydded, rydym yn adolygu cofnod cydymffurfedd y gweithredwr. Mae’r ffactorau a aseswn yn dibynnu ar y drefn, fel y dangosir yn yr adran ‘Gofynion ar gyfer deiliaid ac ymgeiswyr trwyddedau’ uchod, a gallant gynnwys:

- unrhyw euogfarnau perthnasol blaenorol ar gyfer personau perthnasol, y mae'n rhaid eu datgan fel rhan o gais neu yn dilyn collfarn berthnasol (eglurir 'euogfarnau perthnasol' ac 'unigolion perthnasol' isod).
- y cofnod o gydymffurfio â thrwyddedau neu awdurdodiadau eraill, er enghraifft rhybuddion neu hysbysiadau gorfodi a sut yr ymatebwyd iddynt.
- yr ymateb i unrhyw ddamweiniau ar safleoedd a weithredwyd yn y gorffennol.
- ymddygiad gwael, sy'n cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n annerbyniol yn ein barn ni. Gallai hyn gynnwys gweithredoedd corfforol neu iaith (ysgrifenedig, llafar neu ar-lein) sy'n achosi i staff deimlo'n ofnus, dychryn, wedi'u tramgwyddo, dan fygythiad neu wedi'u cam-drin. Gall atal mynediad i safle, cofnodion perthnasol neu wybodaeth weithredol, neu fethiant i ddarparu'r dogfennau gofynnol a chyflwyno datganiadau sy'n annidwyll hefyd gael eu hystyried yn ymddygiad gwael.

Os oes unrhyw euogfarnau perthnasol neu os oes hanes cydymffurfio gwael, gallwn asesu hyn fel rhan o wiriad cymhwysedd ac ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- y canlyniadau posibl i'r amgylchedd a phobl.
- beiusrwydd a ph'un a ydym yn ystyried ei bod yn ddymunol caniatáu i weithredwr ddal trwydded.
- p'un a oes methiannau cyson o ran seilwaith, gweithdrefnau, neu reolaethau rheoli eraill.
- p'un a oedd y gweithredwr yn anghydweithredol wrth egluro'r amgylchiadau a sut mae'r gweithredwr yn bwriadu gwella gweithrediadau.
- p'un a oedd cais neu drwydded wedi'i wrthod neu ei ddirymu yn flaenorol gan y gweithredwr.

Pan fo gweithredwr neu unigolyn perthnasol arall sy'n gwneud cais am drwydded neu'n dal trwydded ar gyfer gweithrediadau, gosodiadau, neu weithrediadau gwastraff mwyngloddio perthnasol yn cael euogfarn berthnasol, byddwn yn ystyried y drosedd a'r tebygolrwydd o aildroseddu.

Gall euogfarnau perthnasol hefyd fod yn ystyriaeth ar gyfer sylweddau ymbelydrol, gollwng dŵr a gweithgareddau dŵr daear, ond nid yw ein gweithdrefn euogfarnau perthnasol penodol yn berthnasol yn yr achosion hyn. Yn ogystal, yn achos gweithgareddau gollwng dŵr a dŵr daear annibynnol, dim ond yn ystod y cam asesu cydymffurfedd y caiff euogfarnau perthnasol eu hystyried.

Fel arfer byddwn yn dirymu (neu'n rhannol ddirymu) trwydded, neu'n gwrthod rhoi unrhyw drwyddedau yn y dyfodol, ar wahân i weithgareddau gollwng dŵr annibynnol a gollwng dŵr daear, lle nad ydym yn fodlon bod y person yn berson addas i ddal y drwydded. Byddwn yn gadarn, ond yn deg yn ein penderfyniadau.

Troseddau perthnasol yw'r rheini y gallwn eu hystyried fel rhan o'n gwiriad cymhwysedd. Dylai'r rhestr hon o droseddau perthnasol gael ei defnyddio i ddatgan unrhyw euogfarnau perthnasol am weithgareddau gwastraff.

Rydym yn ystyried euogfarnau yn erbyn unigolion perthnasol.

Ar gyfer cwmnïau a chyrff corfforaethol eraill, dyma'r unigolion perthnasol:

- y cwmni
- cyfarwyddwyr, rheolwyr, ysgrifenyddion cwmni neu swyddogion tebyg
- cwmnïau eraill, os oedd cyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni eich cwmni yn swyddogion y cwmni hwnnw pan gawsant eu collfarnu.

Ar gyfer unigolion:

- yr unigolyn
- cwmnïau y mae’r unigolyn yn gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg iddynt.

Ar gyfer partneriaethau:

- unrhyw un o'r partneriaid
- euogfarnau partner yn ymwneud â busnes arall yn ogystal â'r bartneriaeth.

Ar gyfer pob math o weithredwr, mae person perthnasol hefyd yn cynnwys unrhyw unigolyn arall y mae gennym reswm i gredu ei fod yn meddwl rheoli neu arwain y gweithrediad.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr a deiliaid trwydded ddatgelu yn eu cais unrhyw euogfarnau perthnasol yn eu herbyn eu hunain neu unigolion perthnasol eraill. Mae darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn berthnasol, sy'n caniatáu i euogfarnau unigolion gael eu trin fel rhai 'wedi darfod' ar ôl cyfnod rhagnodedig. Nid oes modd datgelu euogfarnau sydd wedi darfod. Nid yw troseddau a gyflawnir gan gyrff corfforaethol yn darfod am nad yw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn berthnasol iddynt hwy.

Gallwn ystyried troseddau perthnasol a gyflawnwyd gan unigolion sydd wedi darfod o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ond dim ond pan fyddwn yn fodlon na ellir cael cyfiawnder heb wneud hynny (yn unol ag adran 7(3) o’r Ddeddf).

Gall un drosedd ddifrifol fod yn ddigon i warantu gwrthodiad neu ddirymiad.

Byddai gwrthod neu ddirymu caniatâd fel arfer yn briodol ar gyfer troseddau sy’n dangos diystyrwch bwriadol o’r amgylchedd neu o’r rheoliad amgylcheddol – er enghraifft, euogfarnau mynych neu wneud datganiadau ffug neu gamarweiniol yn fwriadol.

## Cymhwysedd ariannol

Dim ond os ydym yn credu y bydd y gweithredwr yn gallu bodloni rhwymedigaethau ariannol y drwydded y byddwn yn rhoi trwydded. Rhaid i bob gweithredwr feddu ar y cyllid i gyflawni gweithrediadau'n gywir a bodloni amodau'r drwydded.

Gwneir gwiriadau cymhwysedd ariannol ar y cam trwyddedu ar gyfer gosodiadau, gweithrediadau gwastraff a gweithrediadau gwastraff mwyngloddio.

Rydym yn asesu’r risg ar sail p’un a oes gan y gweithredwr unrhyw achosion ansolfedd neu fethdaliad cyfredol neu yn y gorffennol a gwiriad credyd lle bo’n briodol.

Lle gwneir datganiad ac na cheir caniatâd ar gyfer gwiriad credyd, dylid hysbysu'r gweithredwr y gellir gwrthod y cais.

Gellir asesu cymhwysedd ariannol hefyd ar unrhyw adeg yn ystod oes y drwydded a gallai ein harwain i ystyried nad oedd gweithredwr yn gallu cydymffurfio ag amodau trwydded. Gallai hyn olygu bod y drwydded yn cael ei dirymu. Ystyrir cymhwysedd ariannol yn y cam asesu cydymffurfedd ar gyfer gosodiadau, gweithrediadau gwastraff, gweithrediadau gwastraff mwyngloddio, gollwng dŵr a gweithgareddau dŵr daear.

# Darpariaeth ariannol

Gallai rhai mathau o gyfleusterau achosi rhwymedigaeth ariannol sylweddol pe bai'r gweithredwr yn rhoi'r gorau i fasnachu heb ildio'r drwydded yn briodol. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr y cyfleusterau hyn wneud a chynnal darpariaeth ariannol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

## Gweithrediadau tirlenwi

Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr wneud darpariaeth ariannol ddigonol cyn gweithredu'r safle tirlenwi, sy'n ddigonol i gyflawni rhwymedigaethau'r drwydded (gan gynnwys cau ac ôl-ofal). Rhaid i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddangos eu bod wedi cyflawni'r gofyniad hwn yn unol â'n gofynion, h.y. yn ddigonol, yn ddiogel ac ar gael i'r gweithredwr.

Bydd gweithredwyr yn nodi'r mecanwaith y maent wedi'i ddewis i wneud darpariaeth ariannol ac yn darparu cynllun o'r gwariant amcangyfrifedig neu bob cam o'r safle tirlenwi. Bydd gweithredwyr yn darparu amcangyfrif manwl o'r ddarpariaeth ariannol angenrheidiol yn ogystal â nodi'r mecanwaith y maent wedi'i ddewis i wneud darpariaeth ariannol. Bydd hefyd angen llunio cytundeb cyfreithiol ar wahân yn benodol ar gyfer y cytundeb darpariaeth ariannol

## Cyfleusterau gwastraff mwyngloddio categori A a gwastraff mwyngloddio peryglus

Mae'r Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr Categori A a chyfleusterau mwyngloddio gwastraff peryglus wneud gwarant ariannol i sicrhau bod y rhwymedigaethau sy'n deillio o'r drwydded yn cael eu cyflawni.

Mae egwyddorion allweddol y warant ariannol fel a ganlyn:

- gwarant ariannol i sicrhau bod y rhwymedigaethau sy'n deillio o drwydded yn cael eu cyflawni
- rhaid i'r ddarpariaeth fod yn ddigonol mewn termau ariannol, yn ddiogel ac ar gael pan fo angen
- bydd yr holl gostau ôl-ofal yn cynnwys swm wrth gefn a fydd yn weddill ar ôl y cyfnod gweithredu, ac a gwmpesir gan gostau manwl, rhag ofn y bydd angen gwariant ychwanegol
- bydd symiau gwarantau ariannol yn cael eu cyfrifo ar sail costau trydydd parti ac elfen wrth gefn.

### Sut mae'r Gyfarwyddeb Ffynonellau Seliedig Uchel eu Hactifedd yn berthnasol i ffynonellau amddifad

Mae’r Gyfarwyddeb Ffynonellau Seliedig Uchel eu Hactifedd (HASS) yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar gyfer rheoli ffynonellau ymbelydrol yn ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan gynnwys pan fydd y deiliad yn mynd yn fethdalwr neu’n mynd i’r wal. Rhaid darparu hyn gan ddefnyddio sicrwydd ariannol neu ddull cyfatebol sy'n briodol i'r math o ffynhonnell.

Rhaid inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn ei lle cyn y gallwn roi trwydded.

## Cofnod o newidiadau ar gyfer y ddogfen hon:

Fersiwn 1 Mawrth 2008 Cyhoeddwyd ar gyfer lansio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Drafft Rhagfyr 2009 Drafft ar gyfer ymgynghoriad anffurfiol. Gweithgareddau gwastraff mwyngloddio corfforedig, gollwng dŵr, dŵr daear a sylweddau ymbelydrol. Nid oes angen newid ar gyfer batris.

Fersiwn 2 Ebrill 2010 Mân olygu ar ôl ystyried sylwadau

Fersiwn 3 Mawrth 2011 Cywiro diffiniad ‘gweithrediad gwastraff perthnasol’ a diwygiadau cyffredinol

Fersiwn 4 Medi 2014 Ailfrandio Cyfoeth Naturiol Cymru

Fersiwn 5 Medi 2022 Adolygiad hygyrchedd a golygiadau yn dilyn newidiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn 2016 (gan gynnwys mewn perthynas â ‘gweithrediadau gwastraff perthnasol’), a newidiadau i Ganllawiau Craidd yn 2020